# <u>Cyfarwyddyd ar Asesiad Rhywogaethau a Warchodir Rhagarweiniol</u>

Dylid rhoi copi o'r cyfarwyddyd hwn i'ch ymgynghorydd penodedig. Prif ddiben yr asesiad rhagarweiniol yw ymdrin â'r 3 chwestiwn a ganlyn:

1. **A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ystlumod neu rywogaethau eraill a warchodir yn defnyddio (neu wedi defnyddio) yr adeilad, y strwythur, y goeden ayb dan sylw ar unrhyw adeg o'r flwyddyn? Oes / Nag Oes**

2. **A oes tebygrwydd <u>rhesymol</u> bod ystlumod neu rywogaethau eraill a warchodir yn defnyddio (neu wedi defnyddio) yr adeilad, y strwythur, y goeden ayb dan sylw ar unrhyw adeg o'r flwyddyn? Oes / Nag Oes.**

3. **A oes tebygrwydd <u>rhesymol</u> y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar ystlumod neu rywogaethau eraill a warchodir? Oes / Nag Oes.**

*D.S. Os mai 'Oes' yw'r ateb i gwestiwn 1, rhowch fanylion os gwelwch yn dda. Dylid nodi cyfiawnhad cryno o'ch ateb 'Oes' / 'Nag Oes' i gwestiynau 2 a 3 yma. Fel rheol, bydd ateb 'Oes' yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gofyn am arolwg ystlumod cynhwysfawr neu arolwg rhywogaethau eraill a warchodir.*

Dylai'r Adroddiad ar yr Asesiad Rhywogaethau a Warchodir Rhagarweiniol fod yn gryno (h.y. mae un ochr i ddalen A4 o ysgrifen ynghyd â ffotograff(au) / braslun yn ddigon), ond dylai gynnwys yr holl wybodaeth isod:

- Dyddiad yr Asesiad:
- Lleoliad yr Asesiad (yn cynnwys cyfeirnod grid 8 ffigwr):
- Enw'r Ymgynghorydd ynghyd â manylion trwydded(au) perthnasol
- Ffotograff o'r adeilad(au) / strwythur(au) / coeden(coed) ayb a arolygwyd:
- Llinfap i ddangos pa adeilad(au) / strwythur(au) / coeden(coed) a arolygwyd (e.e. os yw'r adeilad yn rhan o glwstwr o dai allan amaethyddol)
- Disgrifiad cryno o'r adeilad / strwythur / coeden e.e. adeilad cerrig traddodiadol gyda tho llechi cyfan ayb.
- Cyflwr yr adeilad(au) / strwythur(au) / coeden(coed)
- Disgrifiad cryno o'r cynefin amgylchynol gan gynnwys cysylltiad yn y dirwedd
- Disgrifiad cryno o'r gwaith arfaethedig, gan nodi a yw trosi / dymchwel ayb yn berthnasol. Bydd brawddeg fel arfer yn ddigon
- A welwyd tystiolaeth i ddangos bod ystlumod yn bresennol, ynghyd â disgrifiad cryno o'r hyn a ddarganfuwyd gan gynnwys e.e. ble daethpwyd o hyd i'r baw ayb, a p'un a oedd yn hen neu'n ddiweddar ayb, ac e.e. a yw'r dystiolaeth yn awgrymu clwyd mamolaeth neu glwyd nos yr haf neu aeafle.
- Rhywogaethau tebygol (os yw'n hysbys).
- A nodwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod bywyd gwyllt arall a warchodir yn bresennol e.e. tylluanod gwynion, gwenoliaid, dyfrgwn, ayb.
- Os nad oes tystiolaeth i awgrymu bod ystlumod neu rywogaethau eraill a warchodir yn bresennol, dylai'r ymgynghorydd ddefnyddio ei farn broffesiynol ef / hi i asesu'r <u>potensial</u> i'r adeilad / strwythur / coeden ayb dan sylw gynnal ystlumod neu fywyd gwyllt arall.

D.S. Yn gyffredinol, mae ystlumod yn gaeafgysgu rhwng mis Hydref ac Ebrill. Efallai y bydd rhai mathau o ystlumod, megis yr ystlum lleiaf, yn amhosibl i'w harolygu dros fisoedd y gaeaf gan eu bod yn cuddio mewn holltau lle nad ydynt yn debygol o gael eu canfod. Gellir ymgymryd ag asesiad rhagarweiniol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, oherwydd fe all o hyd fod yn bosibl dod o hyd i dystiolaeth ddiweddar neu hanesyddol o glwyd yr haf neu aeafle, a / neu i asesu potensial yr adeilad, strwythur, coeden ayb i gynnal ystlumod ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.